

**2021 Rhif (Cy. )**

**2021 No. (W. )**

## **TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

## **ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y  
Gwynt), Bangor, Gwynedd i  
Gyffordd 16 (Cylchfan y Puffin,  
Penmaenmawr, Conwy))  
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau  
Traffig Dros Dro) 2021

The A55 Trunk Road (Junction 11  
(Llys y Gwynt Interchange),  
Bangor, Gwynedd to Junction 16  
(Puffin Roundabout,  
Penmaenmawr, Conwy))  
(Temporary Traffic Prohibitions  
and Restrictions) Order 2021

*Gwnaed* 24 Medi 2021

*Made* 24 September 2021

*Yn dod i rym* 1 Hydref 2021

*Coming into force* 1 October 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### **Enwi a chychwyn**

### **Title and commencement**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Gyffordd 16 (Cylchfan y Puffin, Penmaenmawr, Conwy)) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2021.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd to Junction 16 (Puffin Roundabout, Penmaenmawr, Conwy)) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2021 and this Order comes into force on 1 October 2021.

### **Dehongli**

### **Interpretation**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

---

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

---

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984<sup>(1)</sup> neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 1 Hydref 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai’r gerbyttffordd tua’r dwyrain neu’r gerbyttffordd tua’r gorllewin ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984<sup>(1)</sup> or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 1 October 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibitions and restrictions

**3.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, on either the eastbound or westbound carriageways of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

<sup>(1)</sup> Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Trosedd a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

<sup>(1)</sup> Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

4. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 11, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 11, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur sy'n cario llwyth lletach na 3.0 metr ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur drwy'r bylchau yn y llain ganol drwy droi i'r dde neu wneud troad pedol o un gerbyttfordd i'r llall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50, 40, 30 neu 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd modur na chaniatáu i gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthygl 9 yn weithredol.

### **Cymhwysyo**

11.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 ac 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

4. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited in the eastbound carriageway, but pursuant to article 11, not prohibited in the westbound carriageway, no person may, during the works period, drive any motor vehicle on the offside lane of the westbound carriageway of the trunk road in any direction other than eastwards.

5. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited in the westbound carriageway, but pursuant to article 11, not prohibited in the eastbound carriageway, no person may, during the works period, drive any motor vehicle on the offside lane of the eastbound carriageway of the trunk road in any direction other than westwards.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road and slip roads specified in Schedule 2 to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle bearing a load greater than 3.0 metres wide on the lengths of the trunk road and slip roads specified in Schedule 3 to this Order.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle through the central reservation gaps by way of making a right-hand turn or U-turn from one carriageway to the other on the length of the trunk road specified in Schedule 4.

9. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50, 40, 30 or 10 miles per hour on the lengths of the trunk road and slip roads specified in Schedule 5 to this Order.

10. No person may, during the works period, use or permit the use of a motor vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road and slip roads specified in Schedule 5 to this Order during such times as the restrictions referred to in article 9 are in operation.

### **Application**

11.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

## Atal Dros Dro

12. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 9 yn weithredol.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

13. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Medi 2021

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

### ATODLEN 1 Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganol Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at ganol Cyffordd 11 (Cyfnawidfa Llys y Gwynt) i'r ddau gyfeiriad.

### ATODLEN 2 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o brif gerbyttfordd (gan gynnwys ffyrdd ymuno ac ymadael) y gefnffordd sy'n ymestyn o ganol Cyffordd 11 (Cyfnawidfa Llys y Gwynt) hyd at ganol Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan).

### ATODLEN 3 Gwahardd Cerbydau sy'n Lletach na 3.0 Metr Dros Dro

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 17 (Morfa Conwy) hyd at ganol Cyffordd 11 (Cyfnawidfa Llys y Gwynt).

Y darn o'r gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o

## Suspensions

12. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in article 9 are in operation.

## Duration of this Order

13. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 24 September 2021

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

### SCHEDULE 1 Contraflow

The length of the trunk road that extends from the centre of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) to the centre of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange) in both directions.

### SCHEDULE 2 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the main carriageway (including slip roads) of the trunk road that extends from the centre of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange) to the centre of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout).

### SCHEDULE 3 Temporary Prohibition of Vehicles over 3.0 metres wide

The length of the westbound carriageway that extends from the nosing of the Junction 17 (Conwy Morfa) westbound off slip road to the centre of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

The length of the eastbound carriageway that extends from the nosing of the Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange) eastbound off slip road to the centre of

drwyniad ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) hyd at ganolbwynt Cyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy).

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael ar y ddwy gerbyttffordd o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 17 (Morfa Conwy) hyd at ganol Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

#### **ATODLEN 4**

##### **Gwahardd Troi i'r Dde/Troadau Pedol Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd o ganol Cyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganol Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

#### **ATODLEN 5**

##### **Cyfyngiadau cyflymder a dim goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd o ganol Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) a Chyffordd 16 (Cylchfan y Puffin) i'r ddau gyfeiriad gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael.

Junction 17 (Conwy Morfa Interchange).

The entire lengths of the slip roads on both carriageways from the nosing of the Junction 17 (Conwy Morfa) westbound off slip road to the centre of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

#### **SCHEDULE 4**

##### **Temporary Prohibition of Right-hand Turns/U-turns**

The length of the trunk road that extends from the centre of Junction 12 (Tal-y-Bont) to the centre of Junction 13 (Abergwyngregyn).

#### **SCHEDULE 5**

##### **Speed restrictions and no overtaking**

The length of the trunk road from the centre of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange) and Junction 16 (Puffin Roundabout) in both directions including all slip roads.